Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 17 Ionawr 2024

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 23 IONAWR 2024** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 18)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2023 (copi ynghlwm).

**5 CANLYNIAD ADOLYGIAD Y PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU O BENDERFYNIAD Y CABINET YN YMWNEUD Â'R CYNNIG AM ARBEDION I'R GWASANAETH LLYFRGELLOEDD/SIOPAU UN ALWAD** (Tudalennau 19 - 28)

Ystyried canlyniad yr adolygiad o'r penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 19 Rhagfyr 2023 yn ymwneud â'r cynnig am arbedion i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd/Siopau Un Alwad a oedd wedi'i alw i mewn a'i ystyried gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 11 Ionawr 2024.

**6 CYLLIDEB Y CYNGOR 2024/25** (Tudalennau 29 - 56)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn nodi goblygiadau Setliad Drafft Llywodraeth Leol 2024/25 a chynigion i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25.

**7 YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR "DRETH GYNGOR DECACH"** (Tudalennau 57 - 76)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer yr ymateb arfaethedig i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar "Dreth Gyngor Decach".

**8 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 77 - 92)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm), ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

**9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET** (Tudalennau 93 - 98)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd ynghlwm a nodi'r cynnwys.

**RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL**

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem fusnes ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 12 a 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

**10 GWAREDU FFERM PERONNE, FFORDD COPPY, DINBYCH** (Tudalennau 99 - 124)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddatgan nad oes angen Fferm Peronne ar y Cyngor bellach a chymeradwyo ei gwaredu.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

**Gwyneth Ellis**
**Gill German**
**Elen Heaton**
**Julie Matthews**
**Jason McLellan**
**Barry Mellor**
**Win Mullen-James**
**Rhys Thomas**
**Emrys Wynne**

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
*(*dileuer un)*

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

*(Gweler y nodyn isod)**

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**CABINET**

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth, 19 Rhagfyr 2023 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd; Gill German, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd; Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol; Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant; Win Mullen-James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio; Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; ac Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Ann Davies, Chris Evans, Bobby Feeley, Karen Edwards, Pauline Edwards, James Elson, Huw Hilditch-Roberts, Hugh Irving, Alan James, Brian Jones, Delyth Jones, Terry Mendies, Merfyn Parry, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, Peter Scott, David Williams, a Huw Williams

**HEFYD YN BRESENNOL**

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS); Llywodraethu a Busnes/Swyddog Monitro (GW), a’r Amgylchedd a’r Economi (TW); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyllid ac Archwilio (ET), Gwasanaeth Tai a Chymunedau (LG), Gwasanaeth Digartrefedd a Gofal Cymdeithasol i Oedolion (AL), Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol (PJ) a’r Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Pobl (CR); Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol (GD); Rheolwr Gwasanaeth – Cymorth Busnes a Chymunedau (NJ); Rheolwr Gweithrediadau Eiddo – Gwasanaeth Tai a Chymunedau (MC); Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu (SL); Rheolwr Caffael Cydweithredol a Fframwaith (KB), a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ a RTJ [Gweddarlledu])

**1 YMDDIHEURIADAU**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

**3 MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2023 i’w cymeradwyo.

***PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2023 a chadarnhau eu bod yn gywir.*

**5 CYNNIG ARBEDION LLYFRGELL/SIOP UN ALWAD**

Cyflwynodd y Cynghorydd Emrys Wynne yr adroddiad a oedd yn amlinellu sut y gellid cyflawni arbedion trwy leihau Gwasanaethau Llyfrgelloedd/Siopau Un Alwad.

Roedd y cynnig wedi'i gyflwyno oherwydd yr heriau ariannol digynsail a oedd yn wynebu'r Cyngor a'r gofyniad i bob gwasanaeth ddarparu arbedion sylweddol. Roedd yr adroddiad yn egluro'r arbedion posibl o'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd/Siopau Un Alwad; effaith bosibl yr arbedion; ystyriaethau penodol i'r Cabinet a'r Tîm Gweithredol Corfforaethol i lywio trafodaethau'r dyfodol, ac roedd yn argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig i leihau oriau agor Llyfrgelloedd/Siopau Un Alwad o tua 40%, ynghyd ag arbedion cysylltiedig mewn meysydd gwasanaeth eraill, er mwyn cyflawni arbediad disgwyliedig o £360,000.

Roedd y Cynghorydd Wynne yn glir nad oedd yn gyfforddus â'r cynnig, ond o ystyried y cyd-destun ariannol, roedd angen gwneud llawer o benderfyniadau anodd ac eglurodd y rhesymeg sy'n sail i'r dewis i leihau oriau agor ar draws pob llyfrgell yn hytrach na chau llyfrgelloedd unigol yn llwyr fel ffordd fwy teg o gyflawni arbedion. Roedd newidiadau wedi'u gwneud i'r cynnig gwreiddiol i ymateb i adborth o'r ymgynghoriad. Roedd y cynnig presennol yn seiliedig ar leihau oriau agor o 40% yn hytrach na 50% gan arwain at agor llyfrgelloedd am 30 awr ychwanegol yr wythnos yn gyffredinol a oedd yn darparu tua £90,000 yn llai o arbedion ond a oedd hefyd yn galluogi grwpiau defnyddwyr trydydd parti i ddefnyddio adeiladau'r llyfrgell y tu allan i oriau agor arferol llyfrgelloedd. Roedd y Cynghorydd Wynne o'r farn fod y cynnig presennol yn fwy cytbwys ac yn well i ddefnyddwyr y llyfrgell a staff na'r cynnig blaenorol. Roedd y cynnig yn diogelu llyfrgelloedd i'r graddau yr oedd hynny'n bosibl ar hyn o bryd, a byddai'n sicrhau nad oedd rhaid i unrhyw lyfrgell gau. Gyda thristwch mawr, argymhellodd y Cynghorydd Wynne y cynnig, ond roedd yn credu mai hwn oedd y trefniant gorau posibl i lyfrgelloedd yn y sefyllfa ariannol bresennol.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Amgylchedd a'r Economi y broses a arweiniodd at y cynnig presennol fel rhan o'r broses ehangach o osod y gyllideb er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gosod cyllideb gytbwys, gyda'r cynnig yn newid dros amser i ymateb i adborth o'r ymgynghoriad. Ystyriwyd bod y cynnig yn gymesur a realistig o ystyried y sefyllfa ariannol a lefel yr arbedion gofynnol. Dywedodd y Pennaeth Tai a Chymunedau fod y toriad arfaethedig i'r gyllideb tua 21% o gyllideb y gwasanaeth ac roedd yn cynnwys lleihau oriau agor llyfrgelloedd a rhai arbedion cysylltiedig mewn rhannau eraill o'r gwasanaeth hefyd, yr oeddent yr un mor werthfawr. Tynnodd sylw at Atodiad 2 a oedd yn egluro'r model gwasanaeth 40% arfaethedig a oedd wedi'i ddatblygu trwy ymgynghori ag undebau a staff. Pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig, byddai ymgynghoriad staff ffurfiol a allai arwain at fân adolygiadau gweithredol, ond y model hwn yn fras fyddai'r un a fyddai'n cael ei weithredu.

Diolchodd y Cabinet i'r Aelod Arweiniol am ei waith wrth gyflwyno cynnig mor anodd ond cytbwys gan roi ystyriaeth i'r holl ffactorau. Mynegodd y Cynghorydd Julie

Matthews ei rhwystredigaeth dros y toriadau sydd wedi cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU dros yr 13 mlynedd diwethaf ac effaith gronnus y cynni ar arian Llywodraeth Leol sydd wedi arwain at y sefyllfa ariannol enbyd bresennol. Er nad oedd neb o blaid toriadau i'r gwasanaeth llyfrgelloedd, derbyniwyd y byddai angen i bob gwasanaeth wneud arbedion er mwyn darparu cyllideb gytbwys, o ystyried y sefyllfa ariannol enbyd, ac yn y cyd-destun hwnnw, roedd y Cabinet yn ystyried bod y cynnig yn deg a chymesur. Fodd bynnag, roedd y Cabinet yn awyddus i osgoi unrhyw doriadau pellach i'r gwasanaeth llyfrgelloedd wrth symud ymlaen a lliniaru'r effaith. Gofynnwyd am sicrwydd yn hynny o beth a cheisiadau am adolygiad o'r model arfaethedig er mwyn sicrhau cydraddoldeb o ran gostyngiadau i oriau agor llyfrgelloedd ar draws y sir (gan ystyried cyfraniadau Cynghorau Dinas/Tref); gwaith pellach sy'n cynnwys yr holl fudd-ddeiliaid yn cydweithio i edrych ar fodelau amgen o ddarparu gwasanaethau llyfrgell a thwf yn y dyfodol a sicrhau bod canolbwyntiau/mannau diogel a chynnes yn cael eu darparu ym mhob tref/cymuned wrth symud ymlaen, i bobl eu defnyddio. Amlygwyd yr ymgysylltu cadarnhaol a'r adborth gwerthfawr o'r broses ymgynghori ynghyd â sut yr oedd yr adborth hwnnw wedi newid y cynnig gwreiddiol a chwestiynau pellach yn hynny o beth.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion i'r materion a godwyd fel a ganlyn –

- cytunwyd i adolygu oriau agor llyfrgelloedd er mwyn sicrhau bod y gostyngiadau'n gytbwys a theg ar draws pob llyfrgell a bod ystyriaeth deg yn cael ei rhoi i gyfraniadau ariannol Cynghorau Dinas/Tref
- byddai rhagor o waith yn cael ei wneud gyda budd-ddeiliaid â diddordeb gan gynnwys staff, grwpiau cymunedol a Chynghorau Dinas/Tref/Cymuned er mwyn ystyried modelau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau llyfrgell gyda'r bwriad o'u diogelu ar gyfer y dyfodol a thyfu'r ddarpariaeth honno, lliniaru toriadau a cheisio ffynonellau incwm eraill
- roedd y dewis i leihau oriau agor dros gau llyfrgelloedd yn golygu y byddai'n haws ailgyflwyno'r oriau agor blaenorol neu ehangu darpariaeth yn y dyfodol pe bai'r sefyllfa ariannol yn gwella neu pe bai cyllid amgen ar gael, ac roedd pob llyfrgell yn hyfyw o bosibl i'w defnyddio gan y gymuned y tu allan i'r oriau agor
- byddai llawer o waith yn cael ei wneud i ddiogelu'r gwasanaeth llyfrgell rhag toriadau yn y gyllideb yn y dyfodol, a fyddai'n bendant yn ddewis olaf, ac ni ragwelwyd hyn ar hyn o bryd
- eglurwyd cynlluniau i'r gymuned ddefnyddio adeiladau llyfrgell y tu allan i oriau agor llyfrgelloedd gyda model mwy masnachol yn cael ei ddatblygu i hwyluso'r ddarpariaeth honno a diwygiadau i oriau agor yn dilyn adborth o'r ymgynghoriad, gyda llai o achosion o agor am ran o'r diwrnod, ac addasiadau i ddiwrnodau agor
- amlygwyd defnyddio llyfrgelloedd fel canolfannau clyd/mannau diogel a'r nod o ddiogelu ac ehangu'r ddarpariaeth honno yn y gymuned wrth ystyried y model newydd; roedd y Tîm Gwydnwch Cymunedol wedi bod yn cyfeirio cyllid i'r trydydd sector er mwyn darparu canolfannau clyd/bwyd ar draws y sir a chytunwyd y dylid cynnal ymarfer mapio ar draws y sir â'r bwriad o gynyddu'r ddarpariaeth honno.

Agorodd yr Arweinydd y drafodaeth i rai nad oeddent yn aelodau'r Cabinet, a chymerwyd cyfle i fynegi eu barn a gofyn cwestiynau am y cynigion.

Roedd prif feysydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y canlynol –

- Eglurodd y Cynghorydd Peter Scott sefyllfa Cyngor Dinas Llanelwy, o ystyried eu bod yn cyfrannu'n ariannol i'r gwasanaeth llyfrgell yn Llanelwy ond byddai eu horiau agor yn lleihau o hyd. Roedd Cyngor Tref Rhuddlan mewn sefyllfa debyg. Roedd swyddogion yn gwerthfawrogi'r dull partneriaeth gyda'r ddau Gyngor. Roedd y model arfaethedig yn nodi'r oriau agor ar gyfer llyfrgelloedd unigol ac roedd wedi rhoi ystyriaeth i'r cyfraniadau ariannol ar gyfer llyfrgelloedd Llanelwy a Rhuddlan. Pe bai'r cyfraniad yn cael ei dynnu'n ôl, byddai angen lleihau'r oriau ymhellach. Mynegodd y Cynghorydd Arwel Roberts farn Cyngor Tref Rhuddlan a'u siom am y gostyngiadau arfaethedig ond roedd yn gobeithio y byddai cyfraniadau ariannol yn parhau o ystyried pwysigrwydd y gwasanaeth. Roedd swyddogion yn croesawu trafodaethau pellach gyda'r ddau Gyngor am y ffordd ymlaen.
- Roedd y Cynghorydd Bobby Feeley yn erbyn y cynnig, ac amlygodd bwysigrwydd y gwasanaeth fel a amlinellwyd yn yr adroddiad, ynghyd â'r staff gwerthfawr a ffyddlon, a'r gwrthwynebiad llethol i'r toriadau a ddangoswyd yn yr ymgynghoriad, ac roedd yn teimlo bod gostyngiad o 21% mewn gwasanaeth mor fach yn annheg ac anghymesur. Ymatebodd y swyddogion i'r pwyntiau hynny a phwyntiau eraill a godwyd fel a ganlyn –
    - nid oedd gwerth y gwasanaeth yn cael ei amau, ac nid oedd y cynnig wedi'i gyflwyno'n llawen nac ysgafn, ond yn hytrach i ymateb i'r sefyllfa ariannol enbyd
    - nid oedd y gwasanaeth llyfrgell wedi'i dargedu; roedd gofyn i bob gwasanaeth ganfod arbedion sylweddol a byddai angen gwneud penderfyniadau anodd eraill yn y dyfodol
    - roedd yr adroddiad yn egluro'r uchafswm costau diswyddo ond nes i benderfyniad gael ei wneud, ni ellid dechrau trafodaethau ffurfiol gyda staff a gallai'r costau ddod i ddim, yn dibynnu a ellid adleoli pob aelod o staff a oedd mewn perygl
    - roedd yr effaith ar wasanaethau eraill wedi'i drafod gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac mae'n bosibl y bydd angen ffyrdd mwy creadigol o gael mynediad at wasanaethau y tu allan i oriau'r llyfrgell, a byddai hyn yn cael ei drafod ymhellach pan fyddai penderfyniad wedi'i wneud
    - byddai gan y gwasanaeth llyfrgell rôl ganolog i'w chwarae o hyd o ran cydlyniant cymunedol a darparu mannau diogel a chanolbwyntiau cymunedol ond mae'n bosibl y bydd angen i rai o'r rhain gael eu gwneud mewn ffordd wahanol wrth symud ymlaen
    - eglurwyd y broses gwneud penderfyniadau, gyda'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn swyddogaeth weithredol sy'n gyfrifoldeb i'r Cabinet; roedd swyddogion wedi gofyn i'r eitem gael ei hystyried mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu ond roedd y cais wedi'i wrthod
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts at yr Asesiad o Effaith ar Les, ac nad oedd unrhyw effaith gadarnhaol ar nodau Lles, ac effaith ar ddefnydd o ganol y dref, incwm cysylltiedig a diswyddo tebygol. Ni ellid darparu unrhyw enghreifftiau o adfer gwasanaethau unwaith iddynt gael eu torri. Dangosodd yr ymgynghoriad wrthwynebiad llethol i'r cynnig, a fyddai'n cael effaith go iawn ar breswylwyr ar draws y sir. Gyda hynny mewn cof, ac o ystyried mai costau staffio oedd yr arbediad mwyaf, gofynnodd i'r Cabinet ystyried canlyniad y cynllun diswyddiad gwirfoddol i staff ym mis Ionawr, cyn gwneud penderfyniad

am y cynnig. Cydnabu'r Arweinydd beth oedd gwerth y gwasanaeth, ac roedd y Cabinet wedi cydnabod hynny, ond roedd angen arbedion er mwyn gosod cyllideb gytbwys. Gwnaeth y Pennaeth Cyllid ac Archwilio atgoffa'r Cabinet am y pwysau cyllidebol enfawr sy'n wynebu'r Awdurdod, a'r angen i wneud penderfyniadau amserol er mwyn gosod y gyllideb ym mis Ionawr. Ychwanegodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis na fyddai'r arbedion a wneir o'r cynllun diswyddiad gwirfoddol yn gwneud gwahaniaeth digonol a byddai angen gwneud penderfyniad am y cynigion ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd fel rhan o'r broses ehangach o sicrhau bod cyllideb gytbwys yn cael ei gosod

- Eglurodd y Cynghorydd Pauline Edwards pam na allai gefnogi'r cynnig, gan amlygu'r sefyllfa drychinebus o golli staff gwerthfawr a'r effaith ar breswylwyr, yn enwedig o ran canolfannau clyd/mannau diogel, y dylid rhoi sylw iddi o flaen llaw. Ymatebodd swyddogion i gwestiynau a godwyd gan y Cynghorydd Edwards am yr amserlen ar gyfer y cynnig; talodd deyrnged i'r staff medrus a phrofiadol a chafwyd trafodaethau pellach am fodelau darparu er mwyn lleihau'r effaith ar staff, gyda dewis i adleoli mewn rhan arall o'r Cyngor; a darparodd sicrwydd y byddai trafodaethau'n parhau trwy gydol y broses wrth symud ymlaen o ran modelau amgen ar gyfer canolfannau clyd/mannau diogel
- Roedd y Cynghorydd Ann Davies o'r farn y byddai effaith y toriadau i wasanaethau llyfrgelloedd yn achosi pwysau mewn meysydd gwasanaeth eraill a chwestiynodd ddyletswydd gyfreithiol y Cyngor. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes at y ddeddfwriaeth berthnasol gan ddweud, er bod dyletswydd i ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd effeithlon, Awdurdodau Lleol fyddai'n ystyried sut i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw yng ngoleuni'r adnoddau a oedd ar gael iddynt
- Roedd y Cynghorydd Hugh Irving yn cefnogi barn y Cynghorydd Bobby Feeley a'r Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, ac roedd yn teimlo y dylid gwneud rhagor o waith ar y cynnig cyn i benderfyniad terfynol gael ei wneud; amlygodd yr effaith ar nifer yr ymwelwyr â'r dref hefyd. Ailadroddodd yr Arweinydd yr angen i wneud penderfyniadau mewn modd amserol er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys. Cadarnhaodd Swyddogion fod llyfrgelloedd yn cael effaith economaidd gadarnhaol ar ganol trefi, a dyna pam yr oedd modelau amgen yn cael eu harchwilio i ddefnyddio adeiladau llyfrgell y tu allan i oriau agor llyfrgelloedd.

Diolchodd y Cynghorydd Emrys Wynne i bawb a oedd wedi cyfrannu at y drafodaeth ac a oedd wedi cymryd sylw o'r materion a godwyd, â'r bwriad o weithio gyda swyddogion a'u cynnwys yn y cynigion i liniaru effeithiau. Ailadroddodd fod y penderfyniad yn un anodd i'w wneud ond rhoddodd sicrwydd y byddai'n gweithio gyda swyddogion i adfer gwasanaethau llyfrgelloedd a chynyddu oriau agor pan fyddai'r sefyllfa ariannol yn gwella.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a)* *nodi'r adroddiad ac yn cymeradwyo'r cynnig i leihau oriau agor Llyfrgelloedd/Siopau Un Alwad o oddeutu 40%, ynghyd ag arbedion cysylltiedig mewn rhannau eraill o'r gwasanaeth, i roi arbediad disgwyliedig o £360,000, a*

*(b)* *cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

## 6 GOSOD RHENT TAI A CHYLLIDEBAU CYFALAF A REFENIW TAI 2024/25

Cyflwynodd y Cynghorydd Rhys Thomas yr adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y cynnydd rhent blynyddol ar gyfer Tai Sir Ddinbych, Cyllidebau Cyfalaf a Refeniw'r Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2024/25 a Chynllun Busnes y Stoc Dai.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys y sefyllfa derfynol ddiweddaraf a ragwelwyd ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai a'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2024/25 a oedd wedi'i chyfrifo i alluogi darparu gwasanaethau refeniw, y rhaglen buddsoddi cyfalaf ac i ddatblygu'r rhaglen adeiladu newydd. O ran y cynnydd rhent blynyddol, roedd Llywodraeth Cymru wedi gosod uchafswm cynnydd rhent o 6.7% a chynigiwyd cynyddu rhenti wythnosol o hynny oherwydd y pwysau ar y Cyfrif Refeniw Tai i fuddsoddi mewn cartrefi er mwyn cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru a cheisio cyrraedd targed y Cynllun Corfforaethol ar gyfer cartrefi newydd.

Dywedodd y Cynghorydd Thomas fod 72% o denantiaid y Cyngor wedi cael cefnogaeth gyda'u taliadau rhent; byddai'r Cyngor yn cefnogi'r 28% arall o denantiaid pe baent mewn anhawster ariannol; cytunodd 85% o ymatebion i'r arolwg tenantiaid fod eu rhenti'n cynnig gwerth am arian ac ni wnaeth y Cyngor na Llywodraeth Cymru droi tenantiaid allan oherwydd caledi ariannol. Roedd y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi rhoi ystyriaeth i'r adroddiad a chymeradwyo'r cynnwys.

Eglurodd Pennaeth Tai a Chymunedau fod oedran y stoc tai presennol yn golygu bod angen buddsoddi'n gyson ynddo a bod bodloni Safonau Ansawdd Tai Cymru newydd yn creu pwysau ychwanegol. Roedd pwysau i ariannu rhaglenni adeiladu newydd hefyd gyda chyfnodau heriol o'n blaenau. Cynigiwyd cynyddu rhent i'r uchafswm a osodwyd ond roedd ffydd bod y rhent yn fforddiadwy i denantiaid. Rhoddodd y Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol drosolwg o'r asesiad fforddiadwyedd ac eglurodd sut oedd y rhent wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio model rhent byw Sefydliad Joseph Rowntree sy'n seiliedig ar y 30% o incymau isaf Sir Ddinbych, gyda rhenti nad ydynt yn uwch na 28% o incwm wythnosol yr enillion hynny. Roedd y gwaith hwnnw wedi dangos bod rhenti'n fforddiadwy, a byddai'r holl incwm o renti yn cael ei ail-fuddsoddi yn y stoc tai.

Soniodd y Cynghorydd Huw Williams, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau am drafodaethau'r Pwyllgor Craffu yn dilyn ystyried yr adroddiad ar 7 Rhagfyr 2023. Talodd y Cynghorydd Williams deyrnged i waith y Tîm Tai Cymunedol gan ddiolch iddynt am eu holl waith caled a'u cyflawniadau, a dywedodd fod yr adborth o'r Pwyllgor Craffu wedi bod yn hynod o gadarnhaol a bod argymhelliad yr adroddiad wedi'i gymeradwyo. Roedd un maes pryder yn ymwneud â gwres ffynhonnell aer a'r angen i edrych ar wresogi eilaidd i sicrhau nad oedd tenantiaid heb wres am unrhyw gyfnod. Cadarnhaodd Pennaeth Tai a Chymunedau fod y mater yn cael ystyriaeth bellach a bod asesiadau risg yn cael eu cynnal. Diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorydd Williams am ei adborth ar ôl y Pwyllgor Craffu a chroesawodd fwy o'r dull hwnnw wrth symud ymlaen.

Roedd prif feysydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y canlynol –

- Eglurwyd bod y Cyfrif Refeniw Tai wedi'i glustnodi a'i fod i gyd ar wahân i gyllideb y Cyngor a'r broses o osod y gyllideb
- rhoddodd Aelodau longyfarchiadau i'r Tîm Tai Cymunedol am y cyflawniadau o ran tai cymdeithasol, o ran gwella darpariaeth bresennol a chreu tai cymdeithasol newydd, er budd tenantiaid a phreswylwyr y sir
- eglurodd swyddogion y gwelliant i'r stoc tai Cyngor presennol trwy'r rhaglen ôl-osod gyda chyllid grant yn cael ei ddarparu i gyflawni gwelliannau fel paneli solar, toeau newydd ac inswleiddio waliau allanol ynghyd â gwelliannau a gynlluniwyd sy'n codi o Safon Ansawdd Tai Cymru newydd o ran 'gwres fforddiadwy' a gwelliannau ynni trwy bympiau gwres yr awyr, paneli solar ac inswleiddio waliau allanol a oedd yn creu pwysau cyllideb newydd wrth symud ymlaen
- cyfeiriwyd at yr ymrwymiad yn y Cynllun Corfforaethol i greu 170 o gartrefi ychwanegol a soniodd swyddogion am nifer o ddatblygiadau sydd bron â'u cwblhau yn y Rhyl, Prestatyn a Dinbych ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i brynu hen eiddo'r Cyngor yn ôl hefyd a dod â nhw'n ôl i fyny i'r safon
- roedd tai yn flaenoriaeth gorfforaethol, a chydnabuwyd nad oedd y galw cyffredinol am dai yn cael ei ateb ac roedd llawer o waith yn mynd rhagddo i ddiwallu'r angen hwnnw yn y ffordd orau a mynd i'r afael â digartrefedd yn y sir. Roedd mater Tai Amlfeddiannaeth yn dal i gael sylw trwy bolisïau cynllunio a thimau gorfodi o ran caniatâd cynllunio ac roedd yn cael ystyriaeth fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol hefyd. Deiliadaeth gymysg o dai rhent cymdeithasol a thai sector preifat oedd sylfaen cymuned ffyniannus.

Roedd yr Arweinydd yn croesawu'r adborth cadarnhaol gan Aelodau am waith y Tîm Tai Cymunedol a diolchodd i swyddogion am eu cyfraniadau.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a)* *bod Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2024/25 (Atodiad 1 i'r adroddiad) a Chynllun Busnes y Stoc Dai (Atodiad 2 i'r adroddiad) yn cael ei fabwysiadu;*

*(b)* *cynyddu rhenti anheddau'r Cyngor yn unol â Pholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol i rent wythnosol cyfartalog o £109.34, i'w weithredu o ddydd Llun, 1 Ebrill 2024;*

*(c)* *nodi'r adroddiad ychwanegol (Atodiad 3 yr adroddiad) ar yr ystyriaethau y rhoddir sylw iddynt wrth benderfynu ar yr argymhelliad hwn, a*

*(d)* *bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 4 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

## 7 CAFFAEL PROSIECT CEFNOGI LLETY CYNALIADWY NEWYDD (ATAL DIGARTREFEDD)

Cyflwynodd y Cynghorydd Rhys Thomas yr adroddiad a oedd yn nodi cynigion ar gyfer prosiect cefnogi holistaidd newydd mewn perthynas â thai a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddechrau caffael y gwasanaeth.

Dyluniwyd y prosiect i gefnogi pobl sy'n byw yn Sir Ddinbych i gynnal eu llety ac atal digartrefedd ac roedd yn rhan o broses ailgomisiynu gwasanaethau cefnogi mewn perthynas â thai er mwyn alinio â'r trosglwyddo i Ailgartrefu Cyflym. Byddai'r contract yn cael ei ariannu'n llawn gan y Grant Cymorth Tai a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru a byddai am gyfnod o dair blynedd a bydd dewis i'w ymestyn am ddwy flynedd arall, yn amodol ar berfformiad boddhaol, cyllid parhaus a pherthnasedd strategol. Byddai'r gwasanaeth yn disodli tri gwasanaeth cymorth yn ôl yr angen presennol sy'n cael eu darparu gan dri sefydliad ar wahân. Roedd manylion am y caffael wedi'u nodi ar y Ffurflen Gomisiynu a oedd wedi'i hatodi i'r adroddiad.

Gwnaeth y Rheolwr Gwasanaeth – Cymorth Busnes a Chymunedau amlygu'r angen i gynyddu lefel y cymorth i bobl mewn tenantiaethau a pharhau â'r cymorth hwnnw er mwyn sicrhau bod y tenantiaethau hynny'n cael eu cynnal er mwyn osgoi achosion mynych o ddigartrefedd. Roedd cyflenwyr presennol yn cael eu hannog i gydweithio i ddarparu gwasanaeth amddisgyblaethol. Er nad oedd arwydd o werth y contract wedi'i roi, rhagwelwyd y byddai'r prosiect yn arwain at arbediad a fyddai'n mynd i'r afael â phwysau mewn rhannau eraill o'r gwasanaeth. Cyfeiriodd y Cynghorydd Julie Matthews at yr Asesiad o Effaith ar Les a chroesawodd y symudiad at ganlyniadau sy'n canolbwyntio ar unigolion a gofynnodd ragor o gwestiynau yn hynny o beth. Eglurodd swyddogion y broses bresennol a'r bwriad i sicrhau'r ddarpariaeth cymorth gywir wedi'i theilwra i'r unigolyn/aelwyd er mwyn diwallu eu hanghenion a chynnal eu tenantiaeth trwy gydol y cyfnod a byddai'r dull hwnnw'n cael ei drosglwyddo i bob darparwr ar gyfer y prosiect newydd.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) cymeradwyo cychwyn y broses gaffael fel sydd wedi'i nodi ar y Ffurflen Gomisiynu yn Atodiad 1 yr adroddiad, a*

*(b) cadarnhau ei fod wedi darllen ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3 yr adroddiad).*

## 8 CONTRACT AR GYFER CLUDO, DIDOLI A BROCERA DEUNYDD AILGYLCHU CYMYSG SYCH

Cyflwynodd y Cynghorydd Barry Mellor yr adroddiad am gontract y Cyngor ar gyfer prosesu Deunydd Ailgylchu Cymysg Sych (ailgylchu bin glas) a gofynnodd am gymeradwyaeth y Cabinet i ymestyn y contract presennol yn unol â'r Adroddiad Amrywio Contract.

Eglurwyd rhywfaint o gefndir i'r sefyllfa bresennol o ystyried bod contract y Cyngor ar gyfer prosesu Deunydd Ailgylchu Cymysg Sych wedi dod i ben, ond nid oedd disgwyl i'r gwasanaeth casglu deunydd ailgylchu ddechrau tan Chwarter 1 blwyddyn ariannol 2024/25, a fyddai'n golygu bod angen i'r Cyngor wneud trefniadau dros dro tan i'r gwasanaeth newydd ddechrau. Roedd yr adroddiad yn egluro'r rhesymeg a oedd yn sail i'r argymhelliad i ymestyn y contract presennol gyda Shotton Mill gan gynnwys sicrwydd o ran costau/lefelau gwasanaeth; galw anghymesur ar adnoddau presennol sy'n deillio o ymarfer caffael llawn, ac ystyriaethau o ran gwerth am arian.

Atgoffodd y Cynghorydd Mellor yr Aelodau fod y Cyngor yn arfer cael taliad o £25 fesul tunnell am ddeunydd ailgylchu, ond bod rhaid talu swm sylweddol i gael gwared arno ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd yn falch o gyhoeddi bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi trwydded ar gyfer yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd a rhoddodd deyrnged i waith caled pawb a fu'n rhan o'r prosiect, a fu'n dasg enfawr a oedd yn dod i'w therfyn, a byddai o fudd i'r Cyngor wrth symud ymlaen. Ychwanegodd yr Arweinydd ei ddiolch i bawb a fu'n rhan o'r prosiect am eu gwaith caled.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

(a) *wedi rhoi ystyriaeth i gynnwys yr Adroddiad Amrywio Contract sy'n cyd-fynd (Atodiad 1 yr adroddiad), a*

(b) *yn cymeradwyo estyniad i'r contract am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad, h.y. byrdra ac ansicrwydd cyfnod y contract, defnydd gorau o adnoddau a lefel yr hyder fod y telerau a gynigiwyd gan y cyflenwr yn cynnig gwerth am arian.*

## 9 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad a oedd yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

Rhoddwyd crynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn –

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2023/24 oedd £250.793 miliwn (£233.696 miliwn yn 2022/23)
- rhagwelwyd gorwariant o £3.325 miliwn yn y cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- amlygwyd y risgiau ar hyn o bryd a'r rhagdybiaethau yn ymwneud â chyllidebau corfforaethol a meysydd gwasanaeth unigol
- rhoddwyd manylion arbedion ac arbedion effeithlonrwydd a chynnydd mewn ffioedd a chostau (£8.172 miliwn)
- rhoddwyd diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, Rheoli'r Trysorlys a'r Cynllun Cyfalaf a phrosiectau mawr.

Arweiniodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio yr Aelodau drwy'r adroddiad. Roedd cynnydd bach o ran y gorwariant a ragwelir ar gyllidebau gwasanaethau a'r gyllideb gorfforaethol ac roedd y prif feysydd gorwariant yn dal i fod o ganlyniad i wasgfeydd o fewn y Gwasanaethau Digartrefedd a Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol. Nid oedd newidiadau o ran y Cyfrif Refeniw Tai ac o ran ysgolion, roedd cynnydd bach yn y defnydd a ragwelir o gronfeydd wrth gefn y byddai angen i ysgolion eu defnyddio yn ystod y flwyddyn. Roedd yr atodiadau arferol wedi'u cynnwys ar y Cynllun Cyfalaf a Phrosiectau Mawr.

Gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer gosod cyllideb 2024/25 hefyd ynghyd ag achosion busnes cyfalaf sy'n ymwneud ag Ysgol Bro Cinmeirch ac Ysgol y Llys. Byddai'r ddau brosiect ysgol yn ceisio tynnu 100% o'r costau ariannu o Raglen Grant Cyfalaf berthnasol Llywodraeth Cymru.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Amgylchedd a'r Economi i gwestiwn gan y Cynghorydd Terry Mendies ynghylch gosodiadau mewnol datblygiad Marchnad y Frenhines. Eglurodd fod y cam adeiladu'n tynnu at ei derfyn a'r bwriad oedd cytuno ar natur y gosodiadau terfynol gyda gweithredwr y cyfleuster. Oherwydd nad oedd y bartneriaeth arfaethedig gyda Mikhael Hotel and Leisure Group wedi'i datblygu, byddai gwaith yn cael ei wneud o fewn y cyllid a oedd ar gael i roi gosodiadau yn y cyfleuster fel sy'n briodol er mwyn galluogi agor y cyfleuster. Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Mendies yn codi cwestiynau pellach sy'n ymwneud ag agweddau eraill ar ddatblygiad Marchnad y Frenhines y tu allan i'r cyfarfod oherwydd nad oeddent yn ymwneud ag adroddiad cyllid y Cabinet a oedd yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2023/24 a'r cynnydd yn ôl y strategaeth y cytunwyd arni;*

*(b) cymeradwyo Sylfaen y Dreth Gyngor i osod cyllideb 2024/25 fel y manylir yn Atodiad 5 yr adroddiad;*

*(c) cymeradwyo achos busnes Ysgol Bro Cinmeirch i'w gyflwyno i Raglen Gyfalaf Llywodraeth Cymru fel y manylir yn Adran 6.9 ac Atodiad 6 yr adroddiad, a*

*(d) cymeradwyo achos busnes Ysgol y Llys i'w gyflwyno i Raglen Gyfalaf Llywodraeth Cymru fel y manylir yn Adran 6.9 ac Atodiad 7 yr adroddiad.*

## 10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet i'w hystyried, a nododd yr aelodau'r diwygiadau canlynol –

- Pennu Ffioedd Cartrefi Gofal 2024/25 – wedi'i symud o fis Ionawr i fis Mawrth
- Cael gwared ar Fferm Peronne, Dinbych – wedi'i ychwanegu at fis Ionawr

***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet*.

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

*O dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972,* ***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Cyhoedd a'r Wasg o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol, gan y byddai'n debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf yn cael ei datgelu.*

## 11 FFRAMWAITH ADEILADU GOGLEDD CYMRU 3 - PENODI CONTRACTWYR

Cyflwynodd y Cynghorydd Julie Matthews yr adroddiad cyfrinachol ar ganlyniad y broses gaffael ar gyfer Cam 3 Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer penodi'r contractwyr llwyddiannus.

Roedd y fframwaith yn gydweithrediad rhwng chwe Awdurdod gogledd Cymru, a Sir Ddinbych oedd yr Awdurdod cynnal, a'r prif nod oedd darparu gwerth am arian a buddion cymunedol ar draws y rhanbarth. Roedd yr adroddiad yn egluro'r broses gaffael a'r strategaeth lotio ac roedd yn argymell penodi grŵp cymwys o gontractwyr y gallai pob Awdurdod yng ngogledd Cymru neu unrhyw gorff arall yn y sector cyhoeddus ei ddefnyddio, gan osgoi'r broses gaffael hirfaith ac arwain at arbedion sylweddol o ran amser a chost.

Tynnodd y Cynghorydd Mathews sylw at yr Asesiad o Effaith ar Les a'r canlyniadau cadarnhaol o ran nodau lles, creu buddsoddiad mawr yn y rhanbarth a mentrau hyfforddiant. Amlinellodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Pobl yr adroddiad ac arweiniodd y Rheolwr Fframwaith a Chaffael Corfforaethol yr Aelodau trwy fanylion y fframwaith. Gan ymateb i gwestiynau, ailadroddwyd yr ymrwymiad i weithio gyda chwmnïau lleol, gyda'r disgwyliad y byddai cyfran fawr o wariant yn lleol/rhanbarthol ac roedd ymrwymiad gan y cwmnïau mawr o'r tu allan i'r ardal i'r gadwyn gyflenwi leol hefyd a chyflogaeth leol. Cynhyrchwyd adroddiad blynyddol i fesur dangosyddion perfformiad allweddol gan gynnwys gwariant lleol. Roedd dwy fersiwn gyntaf y fframwaith wedi bod yn hynod o lwyddiannus o ran gwariant lleol a buddion cymunedol ac fe'u croesawyd yn fawr. Roedd y Cynghorydd Gill German yn falch bod y gwerthoedd hynny eisoes wedi'u cynnwys yn Sir Ddinbych a bod Llywodraeth Cymru wedi arwain ar y maes hwn gyda Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Diolchwyd i swyddogion a'r Aelod Arweiniol am eu gwaith diwyd yn hynny o beth.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) cymeradwyo penodi'r contractwyr llwyddiannus fel a nodir yn yr adroddiad, a*

*(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.40pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

sir ddinbych denbighshire Cyngor County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **23 Ionawr 2024** |
| **Cadeirydd Craffu** | **Y Cynghorydd Huw O Williams, Cadeirydd Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Catrin Roberts, Pennaeth Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl** |
| **Awdur yr adroddiad** | **Rhian Evans, Cydlynydd Craffu** |
| **Teitl** | **Canlyniad Adolygiad y Pwyllgor Craffu Cymunedau o Benderfyniad y Cabinet yn ymwneud â'r cynnig am arbedion i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd/Siopau Un Alwad** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Y canlyniadau a gyrhaeddwyd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn dilyn ei adolygiad o benderfyniad y Cabinet ar 19 Rhagfyr 2023 yn ymwneud â'r 'Cynnig am Arbedion i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd/Siop Un Alwad'.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Er mwyn cyflwyno canlyniadau ac argymhellion yn dilyn adolygiad y Pwyllgor Craffu Cymunedau o benderfyniad y Cabinet yn ymwneud â'r 'Cynnig am Arbedion i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd/Siop Un Alwad'.

2.2 Gofyn i'r Cabinet adolygu ei benderfyniad gwreiddiol gan ystyried casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cabinet:

3.1 yn cydnabod arsylwadau, canlyniadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn dilyn ei adolygiad o benderfyniad y Cabinet yn ymwneud â'r 'Cynnig am Arbedion i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd/Siop Un Alwad'; ac

3.2 yn cytuno i argymhelliad y Pwyllgor i ohirio gweithrediad y penderfyniad nes bydd mwy o waith archwilio wedi'i gwblhau er mwyn canfod ffynonellau cyllido amgen sydd ar gael i'r Cyngor a chyrff partner eraill yn y sector preifat neu'r sector cyhoeddus.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Ar 19 Rhagfyr 2023 ystyriodd y Cabinet adroddiad ar 'Gynnig am Arbedion i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd/Siopau Un Alwad'. Wedi trafod y mater penderfynodd y Cabinet ei fod yn:

*(a) nodi'r adroddiad ac yn cymeradwyo'r cynnig i leihau oriau agor Llyfrgelloedd/Siopau Un Alwad o oddeutu 40%, ynghyd ag arbedion cysylltiedig mewn rhannau eraill o'r gwasanaeth, i roi arbediad disgwyliedig o £360,000, a*

*(b) chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'i ystyriaethau."*

4.2 Mae gweithdrefn 'galw i mewn' y Cyngor yn diffinio'r broses os yw'r Pwyllgor Craffu'n dymuno arfer ei bwerau statudol i adolygu neu graffu ar benderfyniadau gweithredol, a gofyn i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ailystyried penderfyniad a wnaed, cyn iddo gael ei weithredu.

4.3 Cyhoeddwyd penderfyniad y Cabinet ar wefan y Cyngor ar 21 Rhagfyr 2023. Rhwng 29 Rhagfyr 2023 a 2 Ionawr 2024, derbyniwyd e-byst 'Rhybudd o Alw i Mewn' yn ymwneud â'r penderfyniad uchod gan y nifer angenrheidiol o gynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet. Yr oedd hyn o fewn yr amserlen o 5 niwrnod gwaith a nodir yn 'Rheolau Gweithdrefn Galw i Mewn' y Cyngor. Gellir gweld y sail ar gyfer Galw i Mewn yn Atodiad 1 ynghlwm.

4.4 Mae gweithdrefn 'galw i mewn' y Cyngor yn nodi y dylid cynnal cyfarfod arbennig o bwyllgor craffu o fewn 5 niwrnod gwaith o dderbyn y Rhybudd o Alw Penderfyniad i Mewn oni bai bod fod gan bwyllgor craffu gyfarfod wedi ei drefnu o fewn y cyfnod hwnnw. Mae'r weithdrefn hefyd yn nodi y gellir ymestyn y cyfnod hwn os yw'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad a Chadeirydd y pwyllgor craffu yn cytuno i estyniad. Gan nad oedd unrhyw gyfarfodydd ar gyfer unrhyw Bwyllgor Craffu'r Cyngor wedi cael eu trefnu o fewn y cyfnod amser dynodedig, cytunwyd ymestyn y llinell amser rhwng y rhai a wnaeth y penderfyniad a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau er mwyn gallu cynnal Cyfarfod Arbennig i drafod y penderfyniad a alwyd i mewn ar gyfer craffu. Cynhaliwyd y Cyfarfod Arbennig hwn ar 11 Ionawr 2024. Mae copi o'r adroddiad a'r atodiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar gael ar wefan y Cyngor (eitem 4 ar y rhaglen). Gellir hefyd gweld trafodaeth y Pwyllgor ar yr uchod ar wefan y Cyngor.

4.5 Cafwyd trafodaeth helaeth yn y cyfarfod ar y materion a amlinellwyd yn y 'Rhybudd Galw Penderfyniad i Mewn' (gweler Atodiad 1), gyda chyfeiriad penodol at y nifer uchel o ymatebion a dderbyniwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

4.6 Roedd gan y Pwyllgor bryderon penodol o ran yr effaith posibl o leihau oriau agor ar argaeledd:

- a hygyrchedd y gwasanaeth llyfrgelloedd a siopau un alwad i breswylwyr, yn arbennig y rhai mwyaf diamddiffyn a thrigolion wedi'u heithrio yn ddigidol yn y sir.
- cyfleusterau llyfrgell ar gyfer eu defnyddio fel 'canolfannau clyd' ar gyfer y rhai a effeithir arnynt fwyaf gan yr argyfwng costau byw, y rhai sy'n profi arwahanrwydd cymdeithasol, yn ogystal ag unigolion sy'n byw â phroblemau iechyd hirdymor a'u gofalwyr.
- cyfleusterau llyfrgell ar gyfer plant a phobl ifanc i'w defnyddio i astudio neu waith ymchwilio, neu fel lloches ddiogel i ffwrdd o sefyllfaoedd personol neu deuluol anhrefnus.
- llyfrgelloedd i'w defnyddio gan grwpiau cymunedol/sefydliadau gwirfoddol i gynnal digwyddiadau lles/grwpiau cefnogi, neu er mwyn i

sefydliadau busnes ddarparu gwasanaethau cynghori gwerthfawr i drigolion.

4.7 Yn ogystal â'r uchod, roedd y Pwyllgor hefyd yn bryderus am yr effaith niweidiol rhagweledig y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar ysbryd y staff ac effaith colli staff profiadol ar gapasiti'r Gwasanaeth yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf. Roedd gan aelodau'r Pwyllgor hefyd bryderon am y canlyniadau negyddol anfwriadol y gallai'r penderfyniad ei gael ar wasanaethau eraill y Cyngor, sydd eisoes yn profi pwysau difrifol, h.y. y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant/oedolion ac addysg.

4.8 Ar ddiwedd y drafodaeth penderfynodd y Pwyllgor atgyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Cabinet ar gyfer ail ystyriaeth. Sail yr atgyfeiriad yw bod y Pwyllgor yn teimlo, cyn i'r Cabinet gymryd y penderfyniad i leihau oriau agor y Llyfrgelloedd/Siopau Un Alwad, na wnaed digon o archwiliadau gyda chyrff allanol neu sefydliadau allanol mewn ymdrech i sicrhau cyllid neu adnoddau eraill er mwyn helpu cynnal y lefelau gwasanaeth presennol. O ganlyniad, wrth benderfynu gofyn i'r Cabinet ail ystyried ei benderfyniad gwreiddiol, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Cabinet yn gohirio gweithrediad y penderfyniad gwreiddiol er mwyn hwyluso gwaith archwilio gyda sefydliadau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol gyda'r golwg o sicrhau ffynonellau ariannu amgen posibl i helpu cynnal ac ehangu darpariaeth y gwasanaeth yn y dyfodol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Gweler Adran 5 adroddiad y Cabinet dyddiedig 19 Rhagfyr 2023.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Gweler Adran 6 adroddiad y Cabinet dyddiedig 19 Rhagfyr 2023.

6.2. Gweler Datganiad y Prif Swyddog Cyllid, Adran 9 isod o ran y costau posibl sy'n gysylltiedig â chefnogi argymhellion Craffu.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Gweler Adran 7 adroddiad y Cabinet dyddiedig 19 Rhagfyr 2023.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno casgliadau'r broses Graffu a'r argymhellion sy'n deillio ohoni.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae adroddiad y Cabinet dyddiedig 19 Rhagfyr 2023 yn nodi y bydd y cynnig yn rhyddhau arbedion blynyddol disgwyliedig o £360,000. Mae'r arbedion hyn wedi cael eu cynnwys yn y cynigion i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25 (wedi'i gynnwys mewn man arall ar raglen y Cabinet). Wrth gyrraedd ei benderfyniad, dylai'r Cabinet ystyried yr effaith ar gyllideb 2024/25. Mae gohirio yn debygol o arwain at beidio â bodloni'r lefel hwn o arbedion, gan olygu y bydd angen dod o hyd i lefel amgen o arbedion, cynyddu Treth y Cyngor ymhellach, neu dynnu i lawr o gronfeydd wrth gefn.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Dylai unrhyw benderfyniad i gymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Craffu mewn perthynas â phenderfyniad gwreiddiol y Cabinet liniaru'r risg i'r Cyngor o ymateb niweidiol gan gymunedau a/neu sylw negyddol gan y cyfryngau mewn perthynas â'r cynnig arbedion hwn.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adrannau 21(2) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000; ac

11.2 Adran 7.4.2(a) o Gyfansoddiad y Cyngor, sy'n datgan "Gall Pwyllgorau Craffu adolygu a chraffu ar [benderfyniadau'r Cabinet]" ac Adran 7.4.2(d) sy'n datgan y gall y Pwyllgor "[wneud] argymhellion i'r Cabinet... sy'n deillio o ganlyniadau'r broses graffu."

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Atodiad 1**

# RHYBUDD GALW I MEWN

**At: Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd**

Rydym ni, yr arwyddwyr isod, yn dymuno 'galw i mewn' y penderfyniad canlynol *(gweler nodyn 1)*.

**Penderfyniad wnaed gan** *(gweler nodyn 2)*: **y Cabinet**

**Dyddiad y gwnaed y penderfyniad: 19eg Rhagfyr 2023**

**Teitl Adroddiad: CYNNIG ARBEDION LLYFRGELL/SIOP UN ALWAD**

**Penderfyniad** *(gweler nodyn 3)*: **Rhannau (a) a (b)**

**Rheswm dros y 'Galw i Mewn':**

Mae'r rhesymau dros graffu pellach fel a ganlyn:

(i) Mae'r penderfyniad i leihau oriau agor llyfrgelloedd 40% yn amhriodol gan y bydd y gostyngiadau yn atal gwasanaeth sy'n perfformio'n dda i gynnal ei safonau ac yn effeithio ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y Cyngor. Nid yw'r effaith hon wedi'i hegluro eto.

(ii) Mae siopau un alwad sydd wedi'u lleoli mewn llyfrgelloedd yn darparu cefnogaeth sylweddol i'r gymuned yn enwedig i drigolion llai abl, na fyddant yn cael cymaint o gefnogaeth bellach. Bydd mynediad y cyhoedd at dechnoleg TG yn cael ei leihau a bydd cyfleoedd i drigolion i gael mynediad i amgylchedd cynnes at ddibenion cymdeithasol yn lleihau.

(iii) Nid yw Costau Diswyddo Posibl ac effaith colli staff profiadol sydd wedi'u hyfforddi'n llawn wedi'u cyfrifo'n llawn eto na'u cynnwys yn y ffigurau ar gyfer arbedion corfforaethol. Nid yw manylion llawn yr arbedion a ragwelir wedi'u darparu i aelodau eto.

(iv) Nid yw Cynghorau tref/dinas Rhuddlan a Llanelwy wedi datgan eto a fyddant yn parhau â'u cefnogaeth ariannol i'w llyfrgelloedd lleol o ganlyniad i'r gostyngiad yn y gwasanaeth a gynigir. Mae angen i'r ffigurau hyn fod yn hysbys a chael eu hystyried cyn gwneud penderfyniadau terfynol.

(v) Nid yw sefydliadau allanol sy'n darparu gwasanaethau o adeiladau'r llyfrgelloedd wedi datgan eto a fyddant yn parhau i wneud hynny, o ganlyniad gall hyn gael effaith ar les cymunedol. Nid yw'r colledion ariannol o sefydliadau masnachol, megis y banciau, fydd yn deillio trwy iddynt golli mynediad i gyfleusterau llyfrgell wedi'u cyfrifo eto ac nid yw eu colled i'r gymuned wedi'i ystyried.

Rydym ni ***(gweler nodyn 4)*** yn gwneud cais, yn unol â rheolau gweithdrefn gymeradwy 'Galw i Mewn' y Cyngor ***(gweler nodyn 5)***, y dylid cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu a Throsrolwg mwyaf addas o fewn 5 diwrnod Gwaith ***(gweler nodyn 6)*** o ddyddiad derbyn y rhybudd hwn.

1. Hugh Irving (printio) e-bost dyddiedig 29/12/2023
2. Terry Mendies (printio) e-bost yn cydsynio dyddiedig 30/12/2023
3. James Elson (printio) e-bost yn cydsynio dyddiedig 01/01/2024
4. Justine Evans (printio) e-bost yn cydsynio dyddiedig 02/01/2024
5. Brain Jones (printio) e-bost yn cydsynio dyddiedig 02/01/2024

**Dyddiedig: fel y gwelir uchod**

Nodiadau Cyfarwyddyd

1. Caniateir pum diwrnod gwaith i benderfyniad gael ei 'alw i mewn' ar ôl ei gyhoeddi ar
wefan y Cyngor, a hysbysu aelodau'r Cyngor. Gall penderfyniadau brys fynd ymlaen er
gwaetha'r 'galw i mewn' os oes gan y penderfynwr gytundeb gyda:

(i) Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio perthnasol, neu

(ii) os nad oes Cadeirydd, neu os na all hwnnw weithredu, Cadeirydd y Cyngor, Neu

(iii) os nad oes Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio perthnasol na Chadeirydd y Cyngor, Is-gadeirydd y Cyngor.

2. Rhowch enw'r penderfynwr, os gwelwch yn dda, e.e. Aelod Cabinet neu'r Aelod Arweiniol ar gyfer …………………………..

3. Os ydy'r penderfyniad yn cynnwys mwy nag un rhan, nodwch yn glir pa rannau sy'n cael eu 'galw i mewn', os gwelwch yn dda, e.e. rhannau (a), (b), a (d) o'r Penderfyniad.

4. Rhaid i'r arwyddwyr fod yn aelodau anweithredol. Ni all cynghorwyr â diddordeb niweidiol yn y penderfyniad fod yn arwyddwyr Rhybudd 'Galw i Mewn'.

5. Mae Rheolau 'Galw i Mewn' Sir Ddinbych yn ymddangos yng Nghyfansoddiad y Cyngor Rhan *4.5 – Rheolau Gweithdrefn Archwilio*.

6. Gellir ymestyn yr amser mewn amgylchiadau eithriadol os bydd y penderfynwr a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio perthnasol yn cytuno.

**Ar gyfer defnydd Swyddfa yn unig**

Derbyniwyd gan: Gary Williams Dyddiad: 29/12/2023

Dyddiad y cyhoeddwyd y penderfyniad: 21/12/2023

Rhybudd a anfonwyd at yr Arweinydd a'r Penderfynwr (dyddiad): 02/01/2024

Rhybudd a anfonwyd at y Prif Weithredwr (dyddiad): 02/01/2024

**Y Pwyllgor Archwilio Perthnasol:** Pwyllgor Craffu Cymunedau

Dyddiad: 11/01/2024 Amser: 10am Man Cyfarfod: Hybrid (Neuadd y Sir a thrwy Gynhadledd Fideo)

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 23 Ionawr 2024 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol |
| **Awdur yr adroddiad** | Liz Thomas, Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Teitl** | Cyllideb y Cyngor 2024/25 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn nodi goblygiadau Darpar Setliad Ariannol Llywodraeth Leol 2024/25 gan Lywodraeth Cymru a chynigion i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor bennu cyllideb gytbwys y gellir ei chyflawni cyn dechrau pob blwyddyn ariannol a gosod y lefel o Dreth y Cyngor o ganlyniad i ganiatáu i filiau gael eu hanfon at breswylwyr.

2.2 Mae yna ddyletswydd statudol ar y Pennaeth Cyllid ac Archwilio (Swyddog Adran 151) i adrodd i'r Cyngor llawn, pan fydd y gyllideb yn cael ei hystyried a Threth y Cyngor yn cael ei osod, ar gadarnrwydd amcangyfrif y gyllideb a digonolrwydd cronfeydd ariannol wrth gefn.

2.3 I osod effaith y Darpar Setliad a chymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2024/25, gan gynnwys lefel Treth y Cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 I nodi effaith y Setliad Dros Dro ar gyfer 2024/25.

3.2 Bod y Cabinet yn cefnogi'r cynigion a amlinellir yn Atodiad 1, ac y manylir arnynt yn Adran 4, ac yn eu hargymell i'r Cyngor llawn er mwyn llunio'r gyllideb yn derfynol ar gyfer 2024/25.

3.3 I argymell i'r Cyngor y cynnydd cyfartalog o 8.23% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer gwasanaethau'r cyngor ynghyd â 1.3% ychwanegol ar gyfer y cynnydd yn yr ardoll i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd cyffredinol o 9.53% arfaethedig (paragraff 4.4).

3.4 Argymell i'r Cyngor fod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Cyllid ac Archwilio mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol Cyllid i addasu'r defnydd o arian wrth gefn sydd wedi'i gynnwys yng nghynigion y gyllideb o hyd at £500mil os oes yna symud rhwng ffigyrau'r setliad drafft a'r setliad terfynol er mwyn gallu gosod Treth y Cyngor yn amserol.

3.5 Bod y Cabinet yn cefnogi'r strategaeth i ddefnyddio arian wrth gefn fel y nodir ym mharagraff 4.5 ac yn ei argymell i'r Cyngor llawn.

3.6 Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les fel y nodir yn Adran 7.

## 4. Manylion yr adroddiad

### 4.1 Setliad dros dro Llywodraeth Leol ar gyfer 2024/2025

4.1.1 Roedd y Cyngor wedi derbyn y Setliad Dros Dro ar gyfer 2024/25 ar 20 Rhagfyr 2023 ac roedd wedi arwain at gynnydd mewn arian o £6.720m neu 3.6% wrth gymharu gyda lefel y cyllid a dderbyniwyd yn 2023/24. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio tablau fel bod lefelau cyllid yn 2023/24 a 2024/25 yn gallu cael eu cymharu ar sail tebyg i debyg ar draws holl gynghorau Cymru. Mae cynnydd yng nghanran Sir Ddinbych o 3.7% yn uwch na'r gymhariaeth arian a ddangosir uchod fel sail treth y cyngor (y nifer o eiddo a ddefnyddir i gyfrif tref y cyngor) wedi'i addasu ar gyfer y gymhariaeth 2023/24 mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddefnyddio (ac mae wedi'i addasu ar gyfer holl gynghorau Cymru).

4.1.2 Mae cynnydd Sir Ddinbych yn cymharu'n ffafriol gyda chyfartaledd Cymru o 3.1% ac mae'n dilyn cynnydd yn y boblogaeth a data prydau ysgol am ddim a ddefnyddir yn y fformiwla i ddosbarthu cyllid i gynghorau. Bydd y cynnydd yn y data yn arwain at fwy o alw am wasanaethau.

4.1.3 O fewn y ffigwr a gyhoeddwyd, mae LlC wedi datgan y canlynol:

- Mae'r holl godiadau cyflog ar gyfer swyddi addysgu a swyddi nad ydynt yn rhai addysgu, wedi'u cynnwys o fewn y setliad.
- Mae costau galluogi awdurdodau i barhau i gwrdd â chostau ychwanegol cyflwyno Cyflog Byw Gwirioneddol (CBG) i weithwyr gofal wedi eu cynnwys yn y setliad. Mae hyn yn cynnwys talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'n gweithwyr gofal cymdeithasol ein hunain a'r sector gofal cymdeithasol preifat.

4.1.4 Roedd Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU yn cyfeirio at newidiadau i gostau cyfraniadau cyflogwyr i bensiynau athrawon. Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod y goblygiadau i gyllidebau awdurdod lleol yn y llythyr, maent yn disgwyl i gyllid gael ei ddarparu gan Lywodraeth y DU yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 ac yn ceisio sicrwydd ar symiau ac amseriad gan y Trysorlys. Mae'r cynnydd yng nghostau cyfraniadau cyflogwyr i bensiynau athrawon yn bendant ac felly wedi'i gynnwys ym mhwysau costau'r Cyngor (gweler paragraff 4.2.4). Mae ansicrwydd yn parhau o amgylch cyllid ar gyfer y pwysau costau hyn gan Lywodraethau Cymru a'r DU.

4.1.5 Mae rhan o Raglen Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i sicrhau nad yw biwrocratiaeth ddiangen yn effeithio ar awdurdodau lleol. Rhaglen o waith i leihau y nifer o grantiau ar wahân a dalwyd i awdurdodau lleol o 2024-25 ac i symud grantiau i'r Setliad yn parhau. Mae rhai meysydd eisoes wedi eu nodi ar gyfer newid, yn arbennig grantiau penodol addysg gyda grantiau wedi eu talu'n flaenorol i gonsortia addysgol rhanbarthol fel GwE yng Ngogledd Cymru (y gwasanaeth gwella ysgolion ac effeithiolrwydd rhanbarthol) yn trosglwyddo i awdurdodau lleol. Wrth i'r gwaith hwn barhau, rydym yn disgwyl i fwy o newidiadau gael eu cyflwyno fel rhan o'r Setliad Terfynol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i dryloywder yn y cyswllt hwn.

4.1.6 Disgwylir y Setliad Terfynol ar ddechrau mis Mawrth. Ni all Llywodraeth Cymru warantu na fydd unrhyw newidiadau eraill rhwng y setliadau dros dro a therfynol, ond ni fwriedir gwneud newidiadau i ddulliau na data sy'n sail i ddosbarthiad y setliad.

4.1.7 Nid yw'r setliad dros dro yn dangos sut fydd setliadau yn debyg o fod yn y dyfodol fel y gwnaed yn y blynyddoedd diwethaf.

4.1.8 Nid oedd unrhyw 'drosglwyddiadau i mewn' wedi eu cynnwys yn y setliad drafft, yn cyfeirio at arian grant nad yw'n cael ei glustnodi ar gyfer diben neu fenter penodol, gyda'r

grant yn ‘trosglwyddo i mewn’ i’r setliad ochr yn ochr â’r cyfrifoldeb parhaus i gyflawni’r fenter honno.

4.1.9 I grynhoi, er bod y cynnydd yn y setliad yn ymwneud â’r dybiaeth gynllunio a ddefnyddir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn gadarnhaol ac yn cael ei groesawu, nid yw’n newid yr her ariannol digynsail a wynebir gan y Cyngor wrth osod cyllideb gytbwys yn 2024/25 ac yn y dyfodol.

**Gosod Cyllideb 2024/25**

**4.2 Pwysau**

4.2.1. Mae’r cynigion i gydbwyso cyllideb 2024/25 wedi eu dangos yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn Atodiad 1. Y prif feysydd twf a phwysau yw:

- Pwysau tâl o £4m ar gyfer swyddi nad ydynt mewn ysgolion gan gymryd y bydd dyfarniad tâl 5% yn Ebrill 2024.
- Lwfans ar gyfer cynnydd yn y Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor o £0.350m.
- Mae pwysau chwyddiant ysgolion yn cael eu cydnabod yn swm o £5.486 miliwn. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer dyfarniadau tâl dysgu a swyddi eraill a amcangyfrifir yn 5%, cyfleustodau, ardrethi annomestig a chytundebau lefel gwasanaeth.
- Pwysau demograffig ysgolion o £0.213m yn cydnabod cynnydd cyffredinol yn y nifer o ddysgwyr.
- £7.969m i gydnabod cynnydd yn y galw a rhagolwg o ran costau mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd. Mae hyn yn rhan o strategaeth hirdymor y Cyngor i reoli cyllidebau gofal, yn ogystal â chydnabod y rhaglen er mwyn sicrhau y telir y Cyflog Byw Gwirioneddol i’r holl staff gofal. Mae pwysau i ariannu’r cynnydd yn y galw am ddigartrefedd hefyd wedi’i gynnwys o fewn y ffigwr.
- £2.000m i gydnabod pwysau presennol mewn Gwasanaethau Addysg a Phlant sy’n ymwneud â lleoliadau gofal cymdeithasol plant.

4.2.2 Pwysau Graddio Swyddi Yn y blynyddoedd diwethaf, mae cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol wedi’i gymell gan lefelau uchel o chwyddiant wedi cael effaith ar strwythur tâl y Cyngor. Mae graddfeydd wedi eu cywasgu ar lefel isaf y strwythur oherwydd bod rhai pwyntiau graddfa wedi eu dileu ac mae yna alw cynyddol i adolygu’r strwythur. Gobeithio y bydd hyn hefyd yn cynorthwyo i fynd i’r afael â’r materion recriwtio a chadw staff a brofwyd gan y Cyngor. Er y bydd penderfyniadau terfynol yn ymwneud â gweithredu

angen cael eu hystyried yn ofalus yn ystod 2024/25, mae modelu cychwynnol wedi'i wneud a phwysau costau yn ymwneud â'r newidiadau lleiaf sy'n ofynnol wedi'i gynnwys ar gyfer 2024/25 yn £1.759m. Ni fydd y gwaith hwn yn gallu cael ei gwblhau nes bydd manylion dyfarniad tâl Ebrill 2024 yn hysbys. Bwriedir cadw cronfa wrth gefn i ariannu costau newidiadau ychwanegol o dan ystyriaeth yn 2024/25 (gweler paragraff cronfeydd wrth gefn 4.5), sydd wedi eu cynnwys fel pwysau ychwanegol o fewn yr MTFP o 2025/26.

4.2.3 Y trefniadau ar gyfer ariannu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yw bod ardoll yn seiliedig ar y boblogaeth yn cael ei godi ar 6 chyngor Gogledd Cymru. Mae'r ardoll yn cael ei osod gan yr Awdurdod Tân, nid gan y cynghorau, sy'n rhaid ei dalu yn y pen draw. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus i adolygu set o ddewisiadau ar gyfer goruchwyliaeth frys, mae'r Awdurdod Tân ac Achub ar hyn o bryd yn bwriadu cynyddu'r ardoll 10.8% ar draws y rhanbarth. Oherwydd newidiadau yn y data poblogaeth a ddefnyddir yn y setliad, mae cynnydd Sir Ddinbych yn debygol o fod yn 13.8% ac yn cyfateb i bwysau o £0.838m.

4.2.4 Bydd cyfradd cyfraniad cyflogwyr i bensiwn athrawon yn cynyddu 5% o Ebrill 2024 ac mae hyn yn cyfateb i £1.917m o bwysau costau i ysgolion sydd wedi'i gynnwys yn y cynnydd yn y cyllid i ysgolion. Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad (para 4.1.4). Rhagwelir arian gan y llywodraethau ar gyfer y costau ond nid yw hyn wedi cael ei gadarnhau ar hyn o bryd.

4.2.5 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol mewn ailwynebu ffyrdd, gyda £4m yn ddyraniad cyfalaf blynyddol presennol (yn ogystal ag arian refeniw ac unrhyw gyllid cyfalaf sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru). Mae'r dyraniad £4miliwn yn cael ei ariannu drwy fenthyg sy'n gost o tua £300k bob blwyddyn am 40 mlynedd o refeniw. Oherwydd sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor, nid yw cyllid drwy fenthyg ar y lefel hon bob blwyddyn yn gynaliadwy. Bwriedir i adolygu'r dull ariannu presennol a lleihau'r dyraniad cyfalaf i £2m yn 2024/25 sydd angen cynnydd o tua £150k yn y gyllideb ariannu cyfalaf (wedi'i labelu fel Buddsoddi mewn Blaenoriaethau yn Atodiad 1).

**4.3 Effeithlonrwydd, Arbedion a Gostyngiad mewn Gwasanaethau**

4.3.1 Mae'r pwysau a nodwyd uchod yn dod i gyfanswm o £24.682miliwn. Byddai angen setliad drafft o tua 13.13% er mwyn ariannu'r pwysau hyn i gyd. Mae'r setliad dros dro yn cynhyrchu £6.720miliwn o refeniw ychwanegol gan adael bwlch cyllido o £17.962miliwn. Mae'r eitemau canlynol wedi eu cynnwys yn y cynigion er mwyn pontio'r bwlch hwnnw:

- Cynigion am Arbedion Mawr hyd at £2.388m (gweler Atodiad 2 am fanylion) - roedd Penaethiaid Gwasanaeth wedi derbyn y dasg i ddwyn prosiectau arbed ar raddfa fawr ymlaen, mewn trafodaeth gydag Aelodau Arweiniol. Mae pob cynnig wedi cael ei ystyried gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol ac mewn cyfarfodydd anffurfiol o'r Cabinet, cyn i adroddiad gael ei gyflwyno i'r Aelodau i gyd mewn cyfarfod rhithiol a drefnwyd.
- Mae gwasanaethau hefyd wedi nodi arbedion/effeithlonrwydd heb fod yn strategol am swm o £1.367m (crynhowyd yn Atodiad 3) ynghyd ag arbedion cyfalaf a chorfforaethol o £0.928m a nodwyd (hefyd wedi'i grynhoi o fewn Atodiad 3). Gan ddod â'r cyfanswm arbedion/effeithlonrwydd heb fod yn strategol i £2.295m.
- Hefyd, gofynnwyd i ysgolion gynllunio ar gyfer 3% o arbedion oedd yn gyfanswm o £2.7m, ar ôl derbyn cyllid, yn cynyddu ar gyfer pwysau chwyddiant i gyfanswm o £7.616m fel y nodwyd yn adran 4.2 o'r adroddiad hwn (mae sefyllfa ysgolion yn cael ei grynhoi ym mharagraff llawn 4.6 isod).

4.3.2 Er gwaethaf effeithlonrwydd, arbedion a gostyngiadau mewn costau/gwasanaethau hyd yma, nid ydynt yn ddigon i osod cyllideb gytbwys heb ddefnydd anghynaliadwy o gronfeydd wrth gefn. Felly, mae pob Pennaeth Gwasanaeth wedi derbyn targedau arbedion pellach am gyfanswm o £3miliwn. Mae gwaith yn cael ei wneud ar yr arbedion hyn nawr a bydd angen eu cyflawni gynted ag y bydd yn ymarferol. Ym mis Mawrth 2024, bydd sesiynau cyllideb ar wahân yn cael eu trefnu ar gyfer Aelodau a byddant yn cynnwys pob Pennaeth Gwasanaeth yn cyflwyno'r arbedion a ganfuwyd ganddynt, pa wasanaethau yr effeithir arnynt a sut fydd yr effeithiau hynny yn effeithio ar ein cymunedau. Fel arfer, byddai'r cynigion arbedion pellach hyn wedi eu nodi cyn i'r gyllideb gael ei gosod, ond oherwydd maint yr her eleni ac nid oedd y Setliad Dros Dro wedi cael ei ryddhau hyd at ddiwedd Rhagfyr 2023, nid yw hyn wedi bod yn bosibl.

**4.4 Treth y Cyngor (Atodiad 4 ar gyfer dadansoddi sensitifrwydd Treth y Cyngor)**

4.4.1 Yn seiliedig ar ofyniad cyllideb ychwanegol terfynol o £24.682m mae angen cynnydd blynyddol cyffredinol o 8.23% ar Dreth y Cyngor ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor a 1.3% ychwanegol ar gyfer y cynnydd yn yr ardoll i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd cyffredinol o 9.53% ac yn darparu arenillion ychwanegol cyffredinol o £7.580 miliwn yn 2024/25.

4.4.2 Mae hyn yn dod i gynnydd cyfartalog o £126.36 y flwyddyn (£2.43 yr wythnos cyfatebol) ac yn dod â'r swm i £1,661.71 ar Fand D cyfatebol ar gyfer gwasanaethau'r

cyngor a chynnydd ar gyfartaledd o £19.96 y flwyddyn (£0.43 yr wythnos cyfatebol) ar Fand D cyfatebol ar gyfer ardoll Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

4.4.3 Mae cynnydd yng ngwasanaethau'r cyngor wedi'i gyfuno gyda'r ardoll tân yn cyfateb i gynnydd cyfartalog o £146.32 y flwyddyn ac yn dod â'r swm i £1,681.67 Band D cyfatebol (£2.81 yr wythnos cyfatebol).

4.4.4 Mae'r cynnydd hwn yn gyfartal â chynnydd dangosol ar draws Gogledd Cymru.

**4.5 Cronfeydd Wrth Gefn**

4.5.1 Mae cronfeydd wrth gefn heb eu clustnodi yn £5.6m ar hyn o bryd. Y confensiwn presennol yw cadw isafswm o £5m o arian wrth gefn heb ei glustnodi, ar gyfer unrhyw bwysau costau annisgwyl a digwyddiadau annisgwyl y tu allan i reolaeth y Cyngor. Byddai'n annoeth cynllunio i ddefnyddio'r £5m cyntaf o'r gronfa wrth gefn hon. Yn ogystal, ni fwriedir cynllunio i ddefnyddio'r £0.6m dros y £5m o gronfa wrth gefn lefel sylfaenol o ystyried y lefel gynyddol o risg a fydd yn gynhenid yn y gyllideb a osodwyd yn 2024/25. Os bydd yna unrhyw alw am y gronfa wrth gefn, byddai angen cynllunio i ailgyflenwi'r arian wrth gefn i'w lefel targed o £5m.

4.5.2 Mae gan y Cyngor hefyd cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd sydd wedi eu neilltuo at ddibenion penodol. Mae rhai wedi eu cyfyngu o ran defnydd erbyn, er enghraifft, y telerau ac amodau grant ble mae eu ffynhonnell yn arian llywodraeth. Mae cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd hefyd yn cael eu defnyddio gan wasanaethau i reoli eu cyllideb ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd fel rhan o fonitro cyllideb. Mae gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn ganolog cyfyngedig ac mae'n briodol ystyried yr angen i ddefnyddio'r arian wrth gefn hwn yn ofalus i gynorthwyo'r Cyngor wrth osod cyllidebau blynyddol fel y nodwyd o fewn y paragraffau isod.

4.5.3 Mae'r Cyngor yn rhagweld gorwariant o fewn blwyddyn net 2023/24 presennol fydd angen ei ariannu o'r cronfeydd wrth gefn. Mae'r lefel o orwariant yn £3.3m ar hyn o bryd (diweddariad Cyllid mis Rhagfyr i'r Cabinet). Bydd cronfa wrth gefn Lliniaru'r Gyllideb a glustnodwyd yn cael ei defnyddio i gefnogi'r gorwariant. Mae'r gronfa wrth gefn yn £4.7m ar hyn o bryd, gan adael balans rhagweledig o £1.4m ar gael i gynorthwyo gyda bylchau mewn cyllid yn y dyfodol.

4.5.4 Mae gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn cyfyngedig eraill ac mae'n bwriadu eu ail-neilltuo i gynorthwyo gyda'r sefyllfa ariannol bresennol:

- Y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn £3.6m - nod y gronfa hon yw lliniaru'r risg bod yr adolygiad teirblwydd o Gronfa Bensiynau Clwyd yn dychwelyd i sefyllfa ddiffyg fydd

yn golygu pwysau sylweddol ar y gyllideb yn 2026/27. Bwriedir ail-neilltuo'r Gronfa Bensiynau Wrth Gefn ar gyfer y tâl ynglŷn â chostau yn 2024/25 uwchlaw'r pwysau wedi'i gynnwys o fewn yr MTFP (paragraff 4.2.2 yn cyfeirio) a chostau gadael cysylltiedig â'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol sydd wedi bod yn rhedeg ers Tachwedd 2023. Ar ôl ariannu'r ddwy fenter, mae'n annhebyg y bydd yna lawer ar ôl yn y gronfa hon.

- Arian benthyciad wedi'i addasu £4.4m - cafodd hwn ei greu o ganlyniad i drafodaethau gydag archwilwyr allanol a newid yn y ffordd mae'r Cyngor yn cyfrif set o fenthyciadau hanesyddol. Bwriedir ailneilltuo'r gronfa benthyciad a addaswyd ac i drosglwyddo'r balans i'r gronfa lliniaru'r gyllideb. Mae angen cynnwys pwysau cyllideb i ail-neilltuo'r gronfa wrth gefn yn yr MTFP (£100k) o fewn y gyllideb arian cyfalaf fydd angen cynyddu bob blwyddyn drwy swm cymharol fach sef £5m.

4.5.5 Mae'r Cyngor wedi a bydd yn gorfod defnyddio arian wrth gefn i ariannu;

- 2022/23 gorwariant o fewn blwyddyn net - £1.6m.
- 2023/24 gorwariant a ragwelir o fewn blwyddyn - £3.3m.
- 2023/24 a 2024/25 yn ariannu costau cynllun ymadael gwirfoddol - anfesuradwy ar hyn o bryd.
- Ailraddio tâl 2024/25 ar yr amcangyfrif uchaf o gostau ychwanegol ar gyfer 2024/25 £2.7m (pwysau dros £1.7m wedi'i gynnwys yn MTFP).

Mae'r Cyngor yn gorfod gwneud defnydd sylweddol o'i gronfa wrth gefn, sy'n ofynnol oherwydd y sefyllfa ariannol digynsail. Fodd bynnag, mae cronfeydd wrth gefn ond yn gallu cael eu defnyddio unwaith, ac nid yw dibynnu ar gronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy. Byddai gorwariant sylweddol yn ystod y flwyddyn yn 2024/25 fel y gwelwyd yn 2023/24 yn gadael y Cyngor heb lawer o wydnwch ariannol wrth symud ymlaen sy'n ofid oherwydd bod rhagolygon y Cyngor ar gyfer 2025/26 a 2026/27 yr un mor heriol â 2024/25, os nad yn waeth.

4.5.6 Y strategaeth ar gyfer defnyddio arian wrth gefn felly yw lleihau'r defnydd o arian wrth gefn wrth osod cyllidebau ar gyfer y dyfodol gymaint â posibl a'r bwriad yw peidio defnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwyso cyllideb 2024/25.

**4.6 Ysgolion**

4.6.1. Bydd ysgolion yn derbyn cynnydd cyfunol yn eu cyllid o 5.82% yn 2024/25. Mae hyn yn cynnwys holl gynnydd mewn cyllid fel y nodwyd yn adran 4.2 o'r adroddiad ac yna y 3% o ostyngiad. Mae'r Cyllidebau Ysgolion a heb eu dirprwyo i ysgolion yn £84m+ ac

yn cyfrif am 33.7% o gyllideb y Cyngor, ei gyllideb fwyaf. Yn y blynyddoedd diweddar mae'r Cyngor wedi amddiffyn ysgolion. O ystyried graddfa'r her ariannol mae'r Cyngor yn wynebu wrth osod cyllidebau cytbwys yn y tymor canolig, nid yw ysgolion yn gallu cael eu heithrio rhag dod o hyd i arbedion a gostwng eu lefelau gwariant. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyfathrebu'n rheolaidd gydag ysgolion ynglŷn â'i gyllideb drwy ddiweddariadau rheolaidd i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion a chyfarfodydd Penaethiaid. Hysbyswyd ysgolion i ddisgwyl gostyngiad yn eu cyllid rhwng 2-4% yn dilyn cyllid chwyddiant rhai misoedd yn ôl. Mae'r Cyngor yn darparu dyraniadau cyllid 3 blynedd mynegol sydd wedi cynnwys 3% o ostyngiad mewn cyllid yn 2024/25 ac felly mae ysgolion wedi bod yn paratoi a datblygu eu cynlluniau yn barod ar gyfer hynny.

**4.7 Cynllun Ariannol Tymor Canolig - 2024/25 i 2026/27**

4.7.1 Atodiad 1 MTFP hefyd yn dangos y rhagamcaniad ariannol ar gyfer 2025/26 a 2026/27. Mae cyllid yn seiliedig ar gynnydd o 3.8% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer y ddwy flynedd ac ar ragolygon diweddaraf Dadansoddiad Cyllid Cymru ar gyfer lefelau cyllid Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ar ostyngiad ychydig yn negyddol o -0.3% yn 2025/26 a -0.5% yn 2026/27. Gyda phwysau rhagweledig gostyngedig wedi'i gynnwys ar gyfer chwyddiant tâl a phris, demograffeg a chynnydd yn y galw o fewn Gofal Cymdeithasol yn arwain at ddiffyg mewn cyllid o £15m yn 2025/26 a £13m yn 2026/27. Y diffyg cronnus dros y 3 blynedd yw £38m. I roi hynny mewn cyd-destun, mae hynny'n cyfateb i 15% o'r gyllideb bresennol (mae cyllideb 2023/24 yn cyfateb i £251m). Felly, mae'r her ariannol yn parhau i'r dyfodol, a bydd y Cyngor angen ailystyried ei ddull strategol i ddarparu gwasanaethau o fewn y cyllid sydd ar gael, bydd angen mabwysiadu dull mwy trawsnewidiol yn y dyfodol. Bwriedir MTFP diwygiedig ar gyfer mis Ebrill, a bydd yna gyfleoedd i holl Aelodau ymgysylltu'n llawn mewn trafodaethau trawsnewidiol yn y dyfodol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheoli cyllidebau'r cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd arni yn gosod y sail ar gyfer gweithgarwch ym mhob maes. Mae'r cynigion yn cynnwys dyraniadau i barhau i gefnogi blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth, ond bydd y Cyngor angen adlewyrchu ar y rhagolwg ariannol yn y dyfodol ac ystyried yn realistig beth sy'n gallu cael ei gyflawni o fewn cyllid sydd ar gael.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Fel y nodir yn yr adroddiad.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Mae cyllideb 2024/25 yn cael ei hystyried fel proses sy'n datblygu yn hytrach na digwyddiad unwaith yn unig ym mis Ionawr. Mae'r Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer y gyllideb yn debyg ac yn datblygu ochr yn ochr â chynigion arbedion.

Mae Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer pob un o'r prif gynigion arbedion ag effaith sylweddol wedi eu cyflwyno ar gyfer trafodaeth anffurfiol gyda'r Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Cabinet. Ar ôl symud ymlaen, gofynnir i bob Pennaeth Gwasanaeth gwblhau Asesiad o Effaith ar Les llawn er mwyn helpu i ddeall effaith y gostyngiad yn y gwasanaeth yn well, gan ddatblygu'r mesurau lliniaru posibl ymhellach.

Bydd pob asesiad yn cael ei goladu a'i adolygu gan swyddogion cynllunio strategol a pherfformiad. Bydd hyn yn amlygu unrhyw themâu a phatrymau sy'n dod i'r amlwg ac yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Cabinet ar yr effaith gyfanredol mewn perthynas â phob un o'r nodau lles. Bydd hefyd yn edrych ar p'un a oedd yr arbedion yn effeithio'n anghymesur ar unrhyw grŵp gwarchodedig penodol. Mae hyn wedi ei goladu i ffurfio Asesiad o Effaith ar Les cyffredinol o ran effaith mesurau lleihau cyllideb angenrheidiol yn Atodiad 5. Dylid nodi bod yr Asesiad o Effaith ar Les hwn yn canolbwyntio ar gydgasgliad lefel uchel o'r mesurau gostyngiad cyfunol yn y gyllideb a bydd y gwaith hwn yn parhau wrth i gynigion ar gyfer arbedion gael eu mireinio.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, cafodd proses y gyllideb ei hystyried gan y Tîm Arwain Strategol, cyfarfodydd Briffio'r Cabinet, Arweinwyr Grŵp a chyfarfodydd Briffio'r Cyngor. Mae'r Fforwm Cyllidebau Ysgolion wedi'i gynnwys wrth drafod y cynigion gydol y flwyddyn. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae yna ddyletswydd statudol ar y Pennaeth Cyllid ac Archwilio (Swyddog Adran 151) i adrodd i'r Cyngor llawn, pan fydd y gyllideb yn cael ei hystyried a Threth y Cyngor yn cael ei osod, ar gadarnrwydd amcangyfrif y gyllideb a digonolrwydd cronfeydd ariannol wrth gefn. Mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried yr adroddiad hwn wrth wneud penderfyniadau ar y gyllideb.

9.2 Mae'r Cyngor, ynghyd â chynghorau eraill yng Nghymru yn wynebu heriau ariannol digynsail. Er bod yr adroddiad yn cynnwys cynigion ar gyfer gosod cyllideb gytbwys yn 2024/25, mae gwaith yn cael ei wneud ar fanylion rhai o'r cynigion hyn ac felly mae'r gwaith i sicrhau y gellir cyflawni'r gyllideb yn parhau gyda diweddariadau pellach i gael eu cyflwyno i Aelodau yn yr wythnosau i ddod. Fel y nodir ym mharagraff 4.7, mae'r rhagolwg ariannol tymor canolig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26 a 2026/27 yn edrych yr un mor heriol â 2024/25 ac mae'n rhaid ei ystyried wrth wneud penderfyniadau ar gyfer cyllideb 2024/25.

9.3 Mae pwysau costau wedi eu cynnwys o fewn y gyllideb sy'n rhagweld pwysau gwasanaeth gymaint â phosibl er mwyn datblygu cadernid. Mae'r rhain wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar ragolygon o'r galw a chostau diweddaraf ac felly ystyriwyd i fod yn rhesymol o ystyried anghenion gwariant gwasanaethau statudol yn 2024/25 a'r cyd-destun ariannol ar gyfer gosod y gyllideb.

9.4 Mae cynigion y gyllideb ar gyfer 2024/25 yn cynnwys lefel o amcangyfrifon ariannol oherwydd ansicrwydd yr effaith ar y Cyngor o ddigwyddiadau economaidd presennol. Ar ôl ystyried lefel y cyllid gofynnol gan wasanaethau a'r arbedion / cynigion ar gyfer gostyngiad yn y gyllideb a gyflwynwyd, rwy'n fodlon eu bod yn weddol gadarn. Mae'n glir, fodd bynnag, bod yna rai risgiau sylweddol yn parhau o fewn cynigion cyllideb 2024/25 (fel y nodwyd yn adran 10 o'r adroddiad hwn).

9.5 Mae'r sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn ariannol wedi'i nodi yn adran 4.4 yr adroddiad. Rwy'n argymell bod y cyngor yn cynnal cronfeydd wrth gefn heb eu clustnodi ar y lefel bresennol (£5.6m) a lleihau cyn belled â bo'n bosibl defnydd pellach o gronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb yn 2024/25. Mae'n bwysig diogelu lefelau presennol o gronfeydd wrth gefn i ddiogelu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn risgiau posibl.

9.6 Yn sgil dyddiad hwyr iawn ar gyfer y Setliad Terfynol, argymhellwyd bod y Cabinet a’r Cyngor yn dirprwyo awdurdod i’r Pennaeth Cyllid ac Archwilio mewn ymgynghoriad â’r Aelod Arweiniol Cyllid i addasu’r defnydd o arian wrth gefn wedi’i gynnwys yng nghynigion y gyllideb gan hyd at £500,000. Mae LIC wedi dynodi nad yw’n debygol y bydd unrhyw newidiadau materol, fodd bynnag mae’n synhwyrol cael cynllun wrth gefn wedi’i gytuno ymlaen llawn.

9.7 Mae’n bwysig nodi os na fydd y cynigion yn yr adroddiad hwn yn cael eu derbyn, mae’n rhaid i gynigion amgen gael eu cyflwyno er mwyn cyflawni cyfrifoldeb statudol y Cyngor i osod cyllideb gytbwys.

## 10. Beth yw’r risgiau ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae’r broses gyllidebol ynddi ei hun yn ddull o reoli risg, gyda'r nod o nodi cynigion ar gyfer y gyllideb, eu hasesu a’u cymeradwyo mewn ffordd drefnus a phrydlon. Byddai methu â chytuno ar y cynigion hyn heb gynnig cynigion posibl eraill, yn peryglu cyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25.

10.2 Nid yw dyrannu targedau arbedion nawr i’w cyflawni gynted ag y bo’n ymarferol yn strategaeth mae’r Cyngor wedi gorfod ei defnyddio’n flaenorol i gydbwyso’r gyllideb ac felly mae’n golygu bod y Cyngor yn wynebu lefel o risg nad yw wedi’i brofi o’r blaen. Fodd bynnag, mae nifer o fentrau yn cael eu datblygu fydd yn cynorthwyo pob gwasanaeth i gyflawni targed arbedion y gwasanaeth hwnnw a chynnwys y cynllun ymadael gwirfoddol a’r adolygiad ffioedd a thaliadau i gynyddu incwm. Nid yw’r mentrau hyn wedi eu cwblhau eto ac felly mae’n anodd ar hyn o bryd i asesu pa mor ddigonol fyddan nhw. Bydd y tîm cyllid yn gweithio i gefnogi gwasanaethau drwy’r wythnosau i ddod i gyfrif arbedion ac adrodd ar gyfanswm y lefel cynigion arbedion i Aelodau cyn dechrau’r flwyddyn ariannol newydd.

10.3 Mae’r cyfanswm arbedion / gostyngiadau i gyllidebau i’w canfod ar gyfer cyllideb 2024/25 yn £7.683m (ac eithrio ysgolion) yn sylweddol uwch nag mewn blynyddoedd diweddar. Mae arbedion a restrwyd wedi derbyn cyfradd Coch, Oren, Melyn a Gwyrdd o ran gallu cyflawni’r arbedion yn unig a dangosir yn Atodiadau 2 a 3 (sylwer nad yw hyn yn asesu’r risg i ddarpariaeth gwasanaeth). Mae system yn cael ei datblygu i olrhain a mesur arbedion a gyflawnwyd i sicrhau y gellir adrodd yn rheolaidd ar gynnydd ar lefel briodol o fanylder mewn amrywiol bwyllgorau. Bydd hyn yn cryfhau effeithlonrwydd

rheolaeth ariannol y Cyngor a sicrhau y gellir cymryd camau prydon i leihau unrhyw effeithiau os bydd yna amrywiaethau o fewn y flwyddyn. Mae'n debyg y bydd traciwr arbedion / gostyngiadau yn cael ei ychwanegu i brosesau monitro cyllideb a bydd yn bwydo i mewn i'r adroddiad cyllid misol i'r Cabinet a rhoddir ystyriaeth bellach i rolau'r Pwyllgorau Craffu a Llywodraethu ac Archwilio.

10.4 Mae wedi bod yn heriol rhagweld pwysau costau wrth osod cynigion cyllideb ar gyfer 2024/25 ac maent yn cael eu gyrru gan gynnydd yn y galw am wasanaethau a chynnydd mewn costau gan lefelau uwch o chwyddiant. Er gwaethaf y defnydd o ragolygon galw diweddaraf wrth gyfrifo cyllideb, mae'r rhain yn amcangyfrifon ac mae risgiau yn parhau y gall gwariant fod yn fwy na'r gyllideb hyd yn oed bod cyllidebau wedi cynyddu yn y flwyddyn ariannol newydd. Yn arbennig galw penodol am wasanaethau statudol o fewn gwasanaethau gofal cymdeithasol, digartrefedd a gwastraff. Mae cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn lliniaru risgiau o'r fath rhag deillio yn ystod y flwyddyn a hefyd mae dull gofalus wedi'i fabwysiadu o ran cynnydd chwyddiant yn y dyfodol, er enghraifft, mae chwyddiant tâl wedi'i gynnwys yn 5%, adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn yn uwch nag mae rhai rhagolygon economaidd yn ragweld ar gyfer 2024. Os bydd rhagolygon o'r fath yn cael eu cadarnhau, bydd hyn yn darparu camau lliniaru pellach i risgiau dan arweiniad y galw.

10.5 Er gwaethaf monitro costau'n ofalus a thracio cynigion arbedion, yn y pen draw os bydd gorwariant sylweddol yn ystod y flwyddyn yn 2024/25 fel y gwelwyd yn 2023/24, ac os na fydd cynigion arbedion yn gallu cael eu cyflawni, bydd hyn yn arwain at ddibynnu ar gronfeydd wrth gefn yn 2024/25. Bydd hyn yn lleihau lefelau cynaliadwyedd a gwydnwch ariannol y Cyngor wrth symud ymlaen. Mae'r sefyllfa ariannol yn hynod heriol ac mae rheolaeth ariannol effeithiol a disgybliedig yn ystod y flwyddyn yn hanfodol i holl ddeiliaid cyllideb.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

O dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Appendix 1**
**MTFP - as at December 2023**

| | 2023/24 £'000 | 2024/25 £'000 | 2025/26 £'000 | 2026/27 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Funding** | | | | |
| Revenue Support Grant & NNDR (AEF) | 188,024 | 194,743 | 194,159 | 193,188 |
| Council Tax | 62,768 | 70,348 | 73,497 | 76,783 |
| **SSA / Budget Requirement** | **250,792** | **265,091** | **267,656** | **269,972** |
| **Use of Balances** | | | | |
| **Total Funding** | **250,792** | **265,091** | **267,656** | **269,972** |
| **Expenditure** | | | | |
| **Base Budget** | **233,696** | **250,792** | **265,091** | **282,746** |
| **Inflation / Pressures:** | | | | |
| Pay | 3,269 | 4,000 | 3,000 | 3,000 |
| Pay Grading Issue | | 1,759 | 2,655 | |
| Price - targeted | 2,902 | | 100 | 100 |
| Price | 150 | | 150 | 150 |
| CTRS | 350 | 350 | 500 | 500 |
| Fire Levy | 535 | 838 | 100 | 100 |
| Income Inflation | | | (250) | (250) |
| Adults Social Care and Homelessness | 8,187 | 7,969 | 3,000 | 3,000 |
| Childrens Service | 2,700 | 2,000 | 1,500 | 1,500 |
| Covid Contingency | (1,000) | | | |
| CJCs | (200) | | | |
| School Transport | 1,000 | | | |
| Schools - Teachers Pension | | 1,917 | | |
| Schools Inflation | 3,936 | 5,486 | 4,000 | 4,000 |
| Schools Demography Adjustment | 310 | 213 | 700 | 700 |
| **Other known items:** | | | | |
| Investment in Priorities | 500 | 150 | 700 | 700 |
| Service Non-Strategic Pressures | 1,282 | | 1,500 | 1,500 |
| Transfers into/out of Settlement | 148 | | | |
| **EFFICIENCIES / SAVINGS:** | | | | |
| Savings Target (tbc) | | (3,000) | | |
| Capital and Corporate Savings | (1,067) | | | |
| Pensions Triennial Review | (3,828) | | | |
| Non-Strategic Savings | (961) | (2,295) | | |
| Major Savings Proposals | (300) | (2,388) | | |
| Schools Efficiency Target | (816) | (2,700) | | |
| **Total Expenditure** | **250,792** | **265,091** | **282,746** | **297,746** |
| **Funding Shortfall / (Available)** | **0** | **(0)** | **15,090** | **27,775** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Annual increase/(decrease) in shortfall** | **0** | **(0)** | **15,090** | **12,684** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Key Assumptions** | | | | |
| Settlement % | 8.20% | 3.71% | -0.30% | -0.50% |
| Council Tax Increase % Band D | 3.80% | 8.23% | 3.80% | 3.80% |
| Council Tax Increase % for Fire Levy | | 1.30% | | |
| Total Council Tax Increase % Band D | N/A | 9.53% | N/A | N/A |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Budget 2024/25 - Major Savings Proposals** **APPENDIX 2**

| Title | Brief Description | CET | Cabinet / CET | Members - Teams Meeting | Final Decision | Estimated Savings £000 | Notes | RAYG - (Achieving Savings) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Chidrens Services: Fostering Care | Project to invest to save in the fostering service - aim to reduce reliance on external agencies and increase in house foster carers. | 10.07.23 | 05.10.23 | 17.11.23 | Delegated - HofS | 141 | Proposal being actively progressed. | RED |
